Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru San Marc

St Issells Avenue
Pont Fadlen
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1JX

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru San Marc

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru San Marc |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 114 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 90 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 11 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 38.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 20.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/06/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru San Marc yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae perthnasoedd cadarnhaol yn ganolog i'w gwaith. Mae staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal, y cymorth a'r ymrwymiad a ddangosir i'w plant. Ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi meithrin perthnasoedd cryf â chymuned yr ysgol ac wedi sefydlu ffocws ar y cyd ar ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae ganddi weledigaeth gref i ddisgyblion fod y gorau y gallant fod ac wedi nodi llwybr clir i'r ysgol symud ymlaen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn mwynhau dysgu ac yn gweithio'n barchus gyda staff a gyda'i gilydd. Caiff ymddygiad heriol ychydig o ddisgyblion ei reoli'n dda gan staff, ar y cyfan. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau sy'n eu helpu i ddatblygu hyder, creadigrwydd a dealltwriaeth o'u cymuned leol a Chymru. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth a pherthnasoedd iach yn gyfyngedig. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn medrau siarad, darllen, mathemateg, medrau digidol a Chymraeg. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, gan eu helpu i wneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

At ei gilydd, mae athrawon yn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus ac yn defnyddio holi ac adborth yn effeithiol i helpu disgyblion i wella'u dysgu. Fodd bynnag, caiff dysgu ei gyfarwyddo gormod gan oedolion, weithiau, ac nid yw bob amser yn symud yn ddigon cyflym. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth, meddwl drostynt eu hunain a chymhwyso'u medrau yn hyderus mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae gan yr ysgol adeiladau helaeth a thir eang, ond nid yw staff bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored i gefnogi dysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno systemau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion a darparu cymorth ychwanegol, lle mae angen. Maent yn gweithio'n agos gyda llywodraethwyr, sy'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth a her briodol. Er bod presenoldeb wedi gwella ychydig, mae gormod o ddisgyblion yn methu'r ysgol neu'n cyrraedd yn hwyr o hyd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella presenoldeb a phrydlondeb

A2 Sicrhau bod addysgu yn hyrwyddo dysgu a meddwl yn annibynnol disgyblion yn gyson

A3 Gwella profiadau dysgu a'r defnydd o'r amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau

A4 Cryfhau'r cwricwlwm i sicrhau bod cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth a pherthnasoedd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru San Marc yn rhoi perthnasoedd cadarnhaol yn ganolog i'w gwaith. Mae staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn creu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi defnyddio dull pwyllog a sensitif i arwain yr ysgol. Mae hi wedi buddsoddi amser yn deall ei chymuned cyn adolygu gweledigaeth yr ysgol a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn wedi helpu sefydlu ymrwymiad ar y cyd ymhlith staff, llywodraethwyr a theuluoedd i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal a ddangosir gan staff ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt wrth i'w plant setlo i fywyd yr ysgol. Mae'r perthnasoedd cryf hyn yn galluogi staff i ymateb yn gyflym i anghenion disgyblion ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles a'u parodrwydd i ddysgu.

Mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol trwy ystod o brofiadau ystyrlon. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos gofal ac empathi tuag at bobl eraill ac yn dangos parch am wahaniaethau. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion ac yn gweithio'n annibynnol pan mae cyfleoedd yn caniatáu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn dysgu ac yn gweithio'n barchus gyda staff a gyda'i gilydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos ymddygiad heriol, ar adegau, ond caiff hyn ei reoli'n dda gan staff, ar y cyfan. Caiff disgyblion gyfleoedd addas i gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol trwy ystod o grwpiau, er nad yw eu rôl mewn arwain y grwpiau hyn wedi'i datblygu'n ddigonol.

At ei gilydd, mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn addasu dysgu'n llwyddiannus i ddiwallu ystod eang o anghenion. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn addasu darpariaeth yn effeithiol ar gyfer disgybion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan eu helpu i wneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau dysgu a lles unigol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio holi yn effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i esbonio'u meddwl. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth sy'n helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau fel dysgwyr a nodi sut i wella'u gwaith. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae athrawon yn ymateb yn brydlon i ddisgyblion ac yn addasu dysgu yn unol â hynny. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf a datblygu hyder cynyddol yn eu dysgu. Mae gan staff ddisgwyliadau addas o uchel ar gyfer dysgu ac ymddygiad disgyblion. Er bod cryfderau mewn addysgu ym mhob dosbarth, mewn llawer o achosion, mae diffyg cyflymdra i addysgu a chaiff ei gyfarwyddo'n ormodol gan staff. Mae hyn yn rhwystro gallu disgyblion i ddatblygu medrau dysgu a meddwl annibynnol effeithiol.

Mae'r ysgol yn elwa ar adeiladau helaeth a thir eang, ond nid yw athrawon yn gwneud defnydd llawn o'r amgylchedd awyr agored i gyfoethogi dysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau. Yn yr un modd, nid yw'r amgylchedd dysgu dan do ar gyfer y disgyblion hyn yn cefnogi dysgu annibynnol o ansawdd uchel yn gyson.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm sy'n addas o eang sy'n adlewyrchu diddordebau ac anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau a chysylltiadau â'r gymuned i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a Chymru. Mae'r profiadau hyn yn cryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn ac yn eu helpu i werthfawrogi eu treftadaeth leol a chenedlaethol. Hefyd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ddatblygu medrau creadigol trwy gelf, cerddoriaeth, dawns a drama. Ceir cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth Cymru, y byd ehangach a natur perthnasoedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd a darllen yn dda dros gyfnod. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus ac yn huawdl, ac yn darllen yn rhugl ac yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn ysgrifennu. Mae athrawon yn helpu disgyblion i ddeall nodweddion gwahanol fathau o destun ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso'r medrau hyn. Nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn darparu rhesymau dilys i ddisgyblion ysgrifennu neu gymhwyso'u medrau yn annibynnol, ac o'r herwydd, nid yw disgyblion yn trosglwyddo'u dysgu yn hyderus i gyd-destunau ystyrlon yn gyson.

Mae athrawon yn darparu profiadau ymarferol sy'n helpu disgyblion iau i ddatblygu medrau rhif cadarn. Maent yn cynllunio dysgu sy'n galluogi disgyblion hŷn i gymhwyso'u dealltwriaeth fathemategol yn briodol ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 6, mae ychydig o ddisgyblion yn esbonio'u meddwl mathemategol yn hyderus ac yn mynd i'r afael â phroblemau cynyddol heriol yn llwyddiannus. Pan mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion feddwl yn annibynnol, mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau, yn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau ac yn datrys problemau yn llwyddiannus. At ei gilydd, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Mae athrawon yn darparu llawer o gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau digidol. O ganlyniad, mae disgyblion hŷn yn defnyddio technoleg yn hyderus ar draws ystod o gyd-destunau i gynorthwyo ac ymestyn eu dysgu.

Defnyddir y Gymraeg yn bwrpasol trwy gydol y diwrnod ysgol, gan ddarparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau iaith mewn cyd-destunau ystyrlon. O oedran cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg trwy ganeuon, rhigymau a chyfarchion. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o batrymau iaith cyfarwydd, yn ynganu geiriau'n gywir ac yn deall yr iaith maent yn ei defnyddio. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynnal

sgyrsiau syml yn hyderus am destunau bob dydd gan ddefnyddio patrymau iaith cyfarwydd.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n effeithiol gyda staff a llywodraethwyr i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a datblygu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ac yn rhannu'r wybodaeth hon yn effeithiol gydag athrawon a staff cymorth. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi camau nesaf disgyblion ac yn darparu cymorth ychwanegol, lle mae angen. Mae arweinwyr yn datblygu trefniadau effeithiol i werthuso gwaith yr ysgol. Mae gweithgareddau monitro yn dechrau rhoi dealltwriaeth gliriach i arweinwyr o ansawdd addysgu a dysgu. Mae'r pennaeth yn datblygu cyfrifoldebau arwain ar draws yr ysgol, er mai megis dechrau y mae'r gwaith hwn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb am gynorthwyo disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac yn defnyddio cyllid grant, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, yn bwrpasol i leihau anghydraddoldeb a gwella lles disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd addas i staff ddatblygu'n broffesiynol trwy hyfforddiant mewnol ac maent wedi nodi'n gywir mai cydweithio gwell â chydweithwyr o ysgolion eraill yw cam nesaf dysgu proffesiynol.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb yn dda ac yn rhoi strategaethau priodol ar waith i wella ymgysylltiad disgyblion. Mae presenoldeb wedi gwella ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae angen gwella presenoldeb a phrydlondeb o hyd.

Mae gan lywodraethwyr yr ysgol wybodaeth addas am ei gwaith. Maent yn darparu her effeithiol a chymorth gwerthfawr i arweinwyr ac yn gofyn cwestiynau perthnasol am waith yr ysgol. Mae llawer o lywodraethwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddwyn arweinwyr i gyfrif. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus ac yn gwneud penderfyniadau ystyriol sydd o fudd i ddisgyblion. Gyda'i gilydd, maent wedi sefydlu sylfeini addas ar gyfer gwelliant parhaus trwy gynnal ffocws clir ar ddysgu, lles a chynhwysiant disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026